OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 362 (Cy. 88)

# CAFFAEL TIR, CYMRU

## Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Mawrth 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *14 Mawrth 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 2(**1**), 4 a 6 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981(**2**), ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) (Cymru) 2017, a deuant i rym ar 6 Ebrill 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran prynu tir yn orfodol yng Nghymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "deddfiad arbennig" ("*special enactment*") yw—

(a) Deddf leol neu breifat sy'n awdurdodi prynu tir yn orfodol a nodwyd yn benodol yn y Ddeddf honno, neu

(b) darpariaeth sydd—

(i) wedi ei chynnwys mewn Deddf ac eithrio Deddf leol neu breifat, a

(ii) yn awdurdodi prynu tir yn orfodol a nodwyd yn benodol yn y Ddeddf honno;

(**1**) Gweler y diffiniad o "prescribed" yn is-adran (1).

(**2**) 1981 p. 66. Diwygiwyd adran 4(1) gan adran 184 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 (p. 22). Diwygiwyd adran 6(1) gan adran 183 o'r Ddeddf honno, a pharagraffau 4 a 7 o Atodlen 15 iddi.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler yr eitem yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981; ac

ystyr "gorchymyn perthnasol" ("*relevant order*") yw gorchymyn sy'n darparu bod y Ddeddf i fod yn gymwys i brynu tir yn orfodol y mae'n ei awdurdodi fel petai'r gorchymyn yn orchymyn prynu gorfodol.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae pryniant gorfodol wedi ei awdurdodi—

(a) gan orchymyn prynu gorfodol, ar y diwrnod y caiff y gorchymyn ei gadarnhau gan Weinidog neu Weinidogion Cymru neu awdurdod arall, neu ei wneud gan Weinidog neu Weinidogion Cymru;

(b) gan orchymyn o dan adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(**4**), ar y diwrnod y mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn penderfynu gwneud y gorchymyn o dan adran 13(1) o'r Ddeddf honno;

(c) gan orchymyn adolygu harbwr, gorchymyn grymuso harbwr neu orchymyn cau harbwr o dan Ddeddf Harbyrau 1964(**5**), ar y diwrnod y gwneir y gorchymyn gan y Gweinidog priodol(**6**) neu Weinidogion Cymru neu berson sydd wedi ei ddynodi mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 42A(**7**) o'r Ddeddf honno;

(d) gan unrhyw orchymyn perthnasol arall, ar y diwrnod y gwneir y gorchymyn gan Weinidog neu Weinidogion Cymru; neu

(e) gan ddeddfiad arbennig(**8**), ar y diwrnod y deddfir y deddfiad arbennig.

### Ffurfiau rhagnodedig mewn cysylltiad â datganiadau breinio cyffredinol

**3.**—(1) Mewn perthynas â phrynu tir yn orfodol a awdurdodir ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017 —

(a) at ddibenion adran 4(1) o'r Ddeddf, ffurf ragnodedig datganiad breinio cyffredinol yw Ffurflen 1;

(b) at ddibenion adran 6(1) o'r Ddeddf, ffurf ragnodedig hysbysiad sy'n pennu'r tir ac sy'n datgan effaith datganiad breinio cyffredinol yw Ffurflen 2.

(2) Mae'r cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at ffurflen â rhif yn gyfeiriadau at y ffurflen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn yr Atodlen neu at ffurflen y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi.

### Dirymu ac arbed

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) 1990(**9**) wedi eu dirymu o ran Cymru.

(**4**) 1992 p. 42. Gall gorchymyn a wneir o dan adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 awdurdodi caffael tir yn orfodol, *gweler* adran 5 o'r Ddeddf honno, a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau gwneud gorchmynion o dan adrannau 1 a 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eithrio pan fyddai unrhyw orchymyn o'r fath yn cael effaith yng Nghymru a Lloegr, gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, a'r eitem ar gyfer Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 yn Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**5**) 1964 p. 40. Gall gorchymyn o dan Ddeddf Harbyrau 1964 awdurdodi caffael tir yn orfodol, gweler adrannau 14 ac 16 o'r Ddeddf honno.

(**6**) I gael y diffiniad o "the appropriate Minister" gweler adrannau 14(7) a 15(3) o Ddeddf Harbyrau 1964. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf honno yn arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â harbyrau pysgodfeydd, gweler yr eitem ar gyfer y Ddeddf honno yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Diwygiwyd yr eitem honno gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) a pharagraff 1 o Atodlen 3 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**7**) Mewnosodwyd adran 42A gan adran 315 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), a pharagraffau 1 a 3(1) o Atodlen 21 iddi.

(**8**) Caiff deddfiad arbennig ddarparu bod y Ddeddf yn gymwys fel petai'r deddfiad yn orchymyn prynu gorfodol.

(**9**) O.S. 1990/497.

(2) Mae'r Rheoliadau a grybwyllwyd ym mharagraff (1) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â phrynu tir yn orfodol a awdurdodir cyn ^ Ebrill 2017.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

8 Mawrth 2017

ATODLEN 1

# ATODLEN 1

## Ffurflen 1

Rheoliad 3(1)(a)

### Ffurflen datganiad breinio cyffredinol

Gwneir y DATGANIAD BREINIO CYFFREDINOL hwn ar y ... .. .. .. .. .. .. .. .. dydd o .. .. .. .. .. .. .. .. 20.. .. .. .. .. .. .. .. .. gan .. .. .. .. .. .. .. .. .. *(a)* ("yr Awdurdod").

YN GYMAINT Â BOD:

(1) Ar .. .. .. .. .. .. .. .. .. 20.. .. .. .. .. .. .. .. .. gorchymyn â'r teitl .. .. .. .. .. .. .. .. .. wedi'i (wneud) (gadarnhau) gan .. .. .. .. .. .. .. .. .. *(b)* o dan y pwerau a drosglwyddwyd iddynt o dan Ddeddf ................*(c)* yn awdurdodi'r Awdurdod i gaffael y tir a bennwyd yn yr Atodlen at hyn.

(2) Cyhoeddwyd hysbysiad [cadarnhau] [gwneud] y gorchymyn gyntaf yn unol ag [adran 15 o Ddeddf Caffael Tir 1981] [paragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981] *(d)* ar .. .. .. .. .. .. .. .. 20..

(3) Roedd yr hysbysiad hwnnw'n cynnwys y datganiad a'r ffurflen a ragnodwyd o dan [Adran 15(4)(e) ac (f) o Ddeddf Caffael Tir 1981] [paragraff 6(4)(e) ac (f) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981] *(e)*

YN AWR TYSTIA'R WEITHRED HON, wrth weithredu'r pwerau a drosglwyddwyd iddynt drwy adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981("y Ddeddf"), fod yr Awdurdod drwy hyn yn datgan --

(1.) Y bydd y tir a ddisgrifir yn (Rhan 1 o*(f)* yr Atodlen at hyn (sef [yr holl dir] [rhan o'r tir] yr awdurdodwyd ei gaffael drwy'r gorchymyn) ac yn fwy penodol sydd wedi'i farcio ar y cynllun a atodwyd at hyn ynghyd â'r hawl i fynd ar y tir a'i feddiannu yn cael ei freinio i'r Awdurdod o ddiwedd y cyfnod o [*rhowch gyfnod o 3 mis neu hwy*] o'r dyddiad pan gwblheir cyflwyno'r hysbysiadau sy'n ofynnol o dan adran 6 o'r Ddeddf.

(2.) At ddibenion adran 2(2) o'r Ddeddf, y cyfnod penodedig [yng nghyswllt y tir sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn yw.. .. .. .. .. .. .. .. .. o flynyddoedd a misoedd] [yng nghyswllt pob ardal o dir a bennir yng ngholofn 1 o Ran 2 o'r Atodlen at hyn yw hwnnw sy'n cael ei ddatgan ar gyfer yr ardal honno yng ngholofn 2].

# ATODLEN

*(g)* . . .

## NODIADAU AM DDEFNYDDIO FFURFLEN 1

*(a)* Rhowch enw'r awdurdod caffael.

*(b)* Rhowch enw'r awdurdod cadarnhau neu, os yw'r gorchymyn wedi'i wneud gan Weinidog, enw'r Gweinidog hwnnw.

*(c)* Rhowch deitl y Ddeddf sy'n awdurdodi'r prynu gorfodol.

*(d)* Os cyhoeddwyd yr hysbysiad o dan weithdrefn a ragnodir o dan ryw ddarpariaeth arall, cyfeiriwch yn hytrach at y ddarpariaeth honno.

*(e)* Os cyhoeddwyd yr hysbysiad o dan weithdrefn a ragnodir o dan ddarpariaeth arall (h.y. nid o dan Ddeddf Caffael Tir 1981,) cyfeiriwch at y ddarpariaeth a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad gynnwys datganiad rhagnodedig am effaith Rhannau 2 a 3 Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 a ffurflen ragnodedig ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r awdurdod sy'n caffael.

*(f)* Dylid rhannu'r Atodlen yn Rhan 1 a Rhan 2 os bydd gofyn cael Rhan 2 at ddibenion ymadrodd olaf Cymal 2 o'r datganiad. Ceir hepgor Cymal 2, dan unrhyw amgylchiad, os nad oes tenantiaeth hir sydd ar fin dod i ben. Gweler adran 2(2) o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ynglŷn â hyn.

*(g)* Dylid gwneud y datganiad o dan sêl, a'i ddilysu a'i ddyddio'n briodol.

## Ffurflen 2

Reheoliad 3(1)(b)

### Ffurflen Hysbysiad yn pennu'r tir ac yn datgan effaith datganiad breinio cyffredinol

Gorchymyn Prynu Gorfodol 20 .. .. .. .. .. .. .. ..

I: .. .. .. .. .. .. .. ..

o: .. .. .. .. .. .. .. ..

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN bod y ... .. .. .. .. .. .. .. (" y.. .. .. .. .. .. .. .. ") *(a)* ar .. .. .. .. .. .. .. .. .. 20.. .. .. .. .. .. .. .. wedi gweithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ("y Ddeddf") yn breinio'r tir sy'n cael ei ddisgrifio yn yr Atodlen i'r hysbysiad hwn ("y tir") ynddynt hwy eu hunain o ddiwedd y cyfnod o [ *rhowch gyfnod o 3 mis neu hwy*] o'r dyddiad pan gwblheir cyflwyno'r hysbysiadau sy'n ofynnol o dan adran 6 o'r Ddeddf.

Bydd y.. .. .. .. .. .. .. .. *(a)* yn rhoi gwybod ichi maes o law ar ba ddyddiad y cwblhawyd cyflwyno'r hysbysiadau.

Bydd effaith y datganiad breinio cyffredinol fel a ganlyn:--

Ar y diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff cyntaf yr hysbysiad hwn ("y dyddiad breinio") bydd y tir, ynghyd â'r hawl i fynd arno a'i feddiannu, wedi'i freinio yn y .. .. .. .. .. .. .. .. *(a)*.

Hefyd, ar y diwrnod breinio, bydd y Deddfau sy'n darparu ar gyfer iawndal yn berthnasol fel pe bai, ar y diwrnod pan roddwyd y datganiad breinio cyffredinol ar waith (sef, ... .. .. .. .. .. .. .. 20.. .. .. .. .. .. .. ..), hysbysiad i drafod telerau wedi'i gyflwyno i bob person y gallai'r *(a)* fod wedi cyflwyno hysbysiad o'r fath iddo, o dan adran 5 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965, (ac eithrio unrhyw berson sydd â'r hawl i "fân denantiaeth" neu "denantiaeth hir" sydd ar fin dod i ben. Diffinnir yr ymadroddion hyn yn Atodiad A i'r hysbysiad hwn).

Os yw'r tir yn cynnwys unrhyw dir lle mae mân denantiaeth neu denantiaeth hir sydd ar fin dod i ben, ni fydd modd rhoi'r hawl mynediad ar waith gyda golwg ar y tir hwnnw, ac eithrio, ar ôl cyflwyno hysbysiad i drafod telerau yng nghyswllt y denantiaeth honno, bod... .. .. .. .. .. .. .. *(a)* ar ôl cyflwyno i bob meddiannydd ar unrhyw dir lle mae'r denantiaeth yn bodoli, hysbysiad yn dweud, ar ddiwedd cyfnod penodedig (o leiaf 3 mis ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad), eu bod yn bwriadu mynd ar y tir sydd wedi'i bennu yn yr hysbysiad a'i feddiannu, a bod y cyfnod hwnnw wedi dod i ben: yna bydd breinio'r tir yn ddarostyngedig i'r denantiaeth nes i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, neu nes i'r denantiaeth ddod i ben, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Mae Atodlenni 1A ac 1 i'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau atodol ynglŷn â'r datganiadau breinio cyffredinol. Os cyflwynir gwrth-hysbysiad o dan baragraff 2 o Atodlen A1 o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff cyntaf yr hysbysiad hwn, bydd y dyddiad breinio ar gyfer y tir y cyfeirir ato yn y gwrth-hysbysiad yn cael ei bennu'n unol a'r Atodlen honno. Mae darpariaethau Atodlenni A ac 1 wedi'u nodi yn Atodiad B i'r hysbysiad hwn.

Mae copi o'r datganiad breinio cyffredinol y mae'r hysbysiad hwn yn cyfeirio ato ac o'r cynllun sydd wedi'u hatodi wrth y datganiad ar gael i'w harchwilio yn... .. .. .. .. .. .. .. *(b)* ac mae modd eu gweld ar bob awr resymol.

## ATODLEN

[Disgrifiad o'r tir wedi'i dynnu o'r Atodlen i'r datganiad breinio cyffredinol]

Atodiad A

[Nodwch yma'r diffiniadau o "fan denantiaeth" a "thenantiaeth hir sydd ar fin dod i ben" yn adran 2(1) a (2) o'r Ddeddf].

Atodiad B

[Rhowch Atodlenni 1A ac 1 i'r Ddeddf yma]

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU AM DDEFNYDDIO FFURFLEN 2

*(a)* Rhowch enw'r awdurdod a'i ddiffinio drwy ddefnyddio term priodol. Yna, defnyddiwch y diffiniad hwnnw pa bryd bynnag y bydd "(a)" yn ymddangos yn y testun.

*(b)* Rhowch gyfeiriad y swyddfa lle mae modd archwilio'r dogfennau.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi ffurfiau at ddibenion Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 (p. 66) ("Deddf 1981") a deuant i rym ar 6 Ebrill 2017. Maent yn gymwys i brynu tir yn orfodol yng Nghymru.

Mae'r ffurfiau a ragnodir yn adlewyrchu'r newidiadau i'r weithdrefn datganiad breinio cyffredinol a wnaed gan Ran 7 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 (p. 22).

Mae rheoliad 3(1)(a) yn darparu mai ffurf datganiad breinio cyffredinol, at ddibenion adran 4(1) o Ddeddf 1981, yw Ffurflen 1 yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn (neu ffurflen y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi).

Mae rheoliad 3(1)(b) yn darparu mai ffurf hysbysiad sy'n pennu'r tir ac yn datgan effaith datganiad breinio cyffredinol, at ddibenion adran 6(1) o Ddeddf 1981, yw Ffurflen 2 yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn (neu ffurflen y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi).

Mae rheoliad 4 yn dirymu gydag arbediad Reoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) 1990 (O.S. 1990/497) yng Nghymru.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.